
# Dorcas

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Mae hanes Dorcas yn y Beibl yn ein hysbrydoli ni i ofalu am bobl dlawd. Beth fedra i ei wneud i'w helpu?



Ym mhentref glan y môr, Jopa, roedd Dorcas wastad yn brysur yn gwnïo cotiau i'w rhoi i wragedd gweddw a'u plant.



Roedd hi wrth ei bodd yn gofalu amdanynt, yn union fel y gwnaeth Iesu a dangosai hi gariad Duw tuag atynt drwy fod yn garedig ac yn barod i'w helpu.



Aeth Dorcas yn sâl a bu farw. Roedd ei ffrindiau'n cofio gymaint oedd hi wedi helpu eraill ac fel roedd hi wedi credu yn Iesu, Mab Duw.



Roedd Pedr, disgybl i Iesu, wedi iacháu dyn gwael oedd yn y dref gyfagos. Aeth ffrindiau Dorcas i weld Pedr a gofynnon nhw iddo ddod ar frys i iacháu Dorcas hefyd.



Aeth Pedr i Jopa a gweddïodd dros Dorcas, fel roedd Iesu wedi ei ddysgu i wneud. "Arglwydd Dduw, ti yn unig sydd â'r pŵer i ddod â Dorcas yn ôl o farw'n fyw."



Wrth i Pedr weddïo agorodd Dorcas ei llygaid ac eisteddodd i fyny. Diolchodd Pedr i Dduw am ateb ei weddi.



Roedd pawb mor hapus i weld Dorcas yn fyw ac yn iach. Roedd yn wyrth ac fe ddaeth llawer o bobl i ddilyn Iesu a helpu'r bobl dlawd yn dilyn atgyfodiad Dorcas.